Gwasanaeth **Mabwysiadu** Cenedlaethol | National **Adoption** Service

# Achieving More Together / Cyflawni Mwy Gyda'n Gilydd

# Fframwaith Datblygu a Hyfforddi Ôl-Mabwysiadu y GMC

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Mae’r deunyddiau hyn wedi’u datblygu ar ran y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ar gyfer teuluoedd mabwysiadol
- Eu diben yw i ddarparu adnodd datblygu a dysgu ar gyfer mabwysiadwyr ar ôl lleoli
- Gellir defnyddio’r offer hyn gan grwpiau neu gan unigolion.
- Mae llawer o wybodaeth yn y nodiadau o dan bob sleid felly mae’n bwysig darllen y rhain hefyd gan eu bod yn darparu gymaint mwy o wybodaeth a rhai syniadau defnyddiol o ran darllen pellach.

# Am beth mae’r cwrs hwn?

Erbyn diwedd y sesiwn hon rydym yn gobeithio y byddwch chi wedi dysgu am:

- Y system ar gyfer adolygu ac ymweld unwaith y bydd plentyn wedi’i leoli
- Cyfrifoldeb rhiant
- Gwneud cais am orchymyn mabwysiadu
- Gwasanaeth cymorth mabwysiadu
- Cyswllt ar ôl mabwysiadu

# CYFRIFOLDEB RHIANT

- Beth ydy o? 'Yr holl hawliau, dyletswyddau, pŵer, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant plentyn yn ôl y gyfraith mewn perthynas a'r plentyn a'i eiddo' (s3(1) Deddf Plant 1989

- Pwy fydd wedi bod â Chyfrifoldeb Rhiant ar gyfer eich plentyn/plant?

- **Tan achosion gofal**: mam biolegol a thad biolegol (os yw naill ai'n briod â'r fam neu os yw ei enw ar y dystysgrif geni)
- **Pan wnaed y gorchymyn gofal dros dro/gorchymyn gofal**: rhieni biolegol a'r awdurdod lleol (awdurdod lleol yw'r 'uwch bartner')

# PWY SYDD GAN GYFRIFOLDEB RHIANT?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- **Pan wneir y gorchymyn lleoli:** yr asiantaeth fabwysiadu a'r rhieni biolegol
- **Ar ôl lleoli gyda chi:** yr asiantaeth fabwysiadu (uwch bartner), chi a'r rhieni biolegol
- Pwy sy'n penderfynu ar ymarfer Cyfrifoldeb Rhiant pan gaiff ei rannu?
  - Mae cytundeb rhyngoch chi a'r asiantaeth fabwysiadu yn nodi sut y gallwch ymarfer Cyfrifoldeb Rhiant a beth fydd yr Asiantaeth Fabwysiadu eisiau bod yn rhan ohono o hyd
- **Pan wneir gorchymyn mabwysiadu:** byddwch yn cael Cyfrifoldeb Rhiant llawn fel pe baech yn rhieni biolegol

# Ymarfer Cyfrifoldeb Rhiant

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Yn ystod lleoliad a chyn gorchymyn mabwysiadu gwneir cytundeb ar bwy sy'n ymarfer Cyfrifoldeb Rhiant. Dyma enghreifftiau o faterion cyffredin sydd angen eu datrys:
  - Torri gwallt
  - Pa feddygfa
  - Llawdriniaeth wedi'i chynllunio (e.g. tonsilectomi)
  - Newid cyfenw (gweler yn ddiweddarach)
  - Llawdriniaeth fawr (ar gyfer cyflwr iechyd difrifol)
  - Lle mewn ysgol feithrin/ysgol
  - Defnyddio parasetamol babanod
  - Defnyddio triniaeth homeopathig
  - Atgyfeirio at CAMHS

# Newid enwau

- Before the adoption  order:

- First names:
  - Only if outside the bounds of reasonableness or it provides a security risk

- Surnames:
  - May NOT be changed before adoption order made without the consent of all those with PR or an order of the court

# Newid enwau: ar ôll gorchymyn mabwysiadu

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Enwau cyntaf:
  - Gellir newid enwau cyntaf a chanol yn gyfreithlon ond cofiwch hunaniaeth y plentyn ac y byddwch yn gyfrifol yn ddiweddarach am y pederfyniadau a wnewch nawr
- Cyfenwau:
  - Byddant yn cael eu newid i'ch enw chi pan wneir y gorchymyn mabwysiadu

# Adolygu ac ymweld unwaith y bydd y plentyn wedi'i leoli

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Unwaith y bydd y plentyn wedi'i leoli gyda chi bydd cyfarfodydd adolygu
- Bydd y rhain yn cael eu cadeirio gan y swyddog adolygu annibynnol (IRO) sy'n gyfrifol am adolygu a monitro achos y plentyn hyd nes y gwneir gorchymyn mabwysiadu.
- Mae'r IRO yn sicrhau bod pawb sy'n gyfrifol am wneud penderfyniad yn cael eu nodi a bod unrhyw fethiannau yn cael eu dwyn i sylw uwch reolwr. Yn benodol, mae'n rhaid iddynt ystyried a yw oedi wrth wneud penderfyniadau yn torri hawliau dynol y plentyn

# Beth mae adolygiadau'n edrych arnynt?

- A ddylai'r plentyn gael ei leoli i'w fabwysiadu o hyd (sut mae'r lleoliad yn mynd?)
- Lles, cynnydd a datblygiad y plentyn, ac a oes angen gwneud unrhyw newidiadau i gynorthwyo datblygiad
- Cynnydd Gwaith Taith Bywyd
- Y trefniadau cyswllt presennol ac a ddylent barhau neu gael eu haddasu
- Ymarfer cyfrifoldeb rhiant
- Y trefniadau ar gyfer cymorth mabwysiadu ac a ddylent barhau neu gael eu hailasesu
- Trefniadau ar gyfer gofal iechyd ac anghenion addysgol

# Pa mor aml y cynhelir adolygiadau?

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Dim mwy na 4 wythnos ar ôl y lleoliad
- Dim mwy na 3 mis ar ôl yr adolygiad cyntaf
- Dim mwy na 6 mis ar ôl hynny
- Bob 6 mis hyd nes y gwneir gorchymyn mabwysiadu neu pan fydd y lleoliad yn dod i ben

- Cynhelir adolygiadau yn eich cartref. Pwy fydd yn mynychu?
  - Chi
  - Gweithiwr cymdeithasol y plentyn/plant
  - Eich gweithiwr cymdeithasol / gweithiwr cefnogi
  - Rhywun o addysg neu iechyd os oes anghenion ychwanegol

# Ymweliadau

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Fel arfer gan weithiwr cymdeithasol y plentyn/plant
- Pa mor aml y cynhelir ymweliadau? O leiaf:
  - O fewn wythnos i ddechrau'r lleoliad
  - O leiaf unwaith yr wythnos tan yr adolygiad cyntaf (o fewn 4 wythnos)
  - Ar ôl yr adolygiad cyntaf, i'w benderfynu yn yr adolygiad ar amlder (yn dibynnu ar y cynllun cymorth/ lefel yr angen am gymorth)

# TRAFODAETH

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Dychmygwch sut y gallech chi fanteisio i’r eithaf ar adolygiadau ac ymweliadau. I’r rhai sydd â phrofiad, rhannwch wybodaeth am adolygiadau ac ymweliadau

# Gwneud y cais am orchymyn mabwysiadu

- Ewch ati i ddarganfod beth sy’n digwydd yn eich rhanbarth chi – ydych chi’n gwneud y cais neu yw’r asiantaeth fabwysiadu yn ei wneud ar eich rhan?
- Fel arfer gwneir y cais i’r llys lle gwnaed y gorchmynion gofal a lleoli
- Cedwir cyfrinachedd gan y llys gan gyhoeddi rhif cyfresol a ddefnyddir yn lle unrhyw enwau

# Beth sydd angen i chi ei ffeilio:

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Y ffurflen gais A58, ynghyd â thri chopi
- Ffi'r llys (£170.00 ar hyn o bryd)
- Copi ardystiedig o dystysgrif(au) geni'r plentyn/plant – a ddarperir gan y GC
- Copi ardystiedig o'r gorchymyn lleoli
- Copi ardystiedig o'ch tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil os yw'n briodol

- Cadwch gopïau i chi'ch hun ac anfonwch nhw mewn ffordd ddiogel

# Beth sy’n digwydd nesaf

- Mae’r llys yn hysbysu’r rhieni biolegol bod cais wedi’i wneud a dyddiad y gwrandawiad ‘cyfarwyddo’ cyntaf
- Ni fydd angen i chi fynychu’r gwrandawiad cyfarwyddo cyntaf
- Mae’r gwrandawiad yn sicrhau bod pawb wedi cael gwybod a bod popeth wedi’i ffeilio (gan gynnwys  Adroddiad Atodiad A)

# Beth all ddigwydd weithiau

- Gall rhieni biolegol wneud cais am ‘absenoldeb’ (caniatâd) i wrthwynebu gwneud y gorchymyn mabwysiadu

- Rhaid iddynt brofi bod newid wedi bod mewn amgylchiadau ac, os bu newid, bydd y llys yn penderfynu a yw o fudd i’r plentyn iddynt allu gwrthwynebu’r cais

- Os yw’r llys yn caniatau absenoldeb, nid oes angen mynd i banig! Byddai’n rhaid iddynt brofi nad yw o fudd pennaf y plentyn iddo gael ei fabwysiadu (rhwystr uchel iawn)

# Y gwrandawiad mabwysiadu terfynol

- Bydd y rhieni biolegol wedi cael rhybudd a gallant droi i fyny
- Gwneir trefniadau fel nad ydych chi'n gweld eich gilydd
- Mae rhai barnwyr yn hapus i chi beidio mynd, mae eraill yn hoffi i chi fod yno
- Nid yw'r plentyn/plant yn mynychu (mae'r barnwr yn rhoi caniatâd iddynt beidio â mynychu)

# Y gwrandawiad dathlu (neu ‘ymweliad mabwysiadu’)

- Mae’n digwydd tua 4 wythnos ar ôl i’r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud (er mwyn sicrhau na chyflwynwyd apêl gan y rhieni biolegol – anarferol iawn)
- Nid yw’r rhieni biolegol yn gwybod bod hyn yn digwydd
- Fel arfer yr un llys a’r barnwr/ ynadon a wnaeth y gorchymyn mabwysiadu
- Gall fod yn anffurfiol neu’n ffurfiol yn dibynnu ar y barnwr
- Mae’n dda cael y lluniau!

# Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Ble mae'r cynllun cymorth mabwysiadu yn cael ei lunio?
  - Gyda'r plentyn a'r CAR/B
  - Yn y cyfnod paru
  - Cyn i'r gorchymyn mabwysiadu gael ei wneud
- Mae gennych hawl gyfreithiol i ofyn am asesiad o anghenion cymorth mabwysiadu ar unrhyw adeg nes bod y plentyn yn 18 mlwydd oed.
- Mae'n arwydd o gryfder, nid gwendid, i geisio cymorth – mae angen help ar y rhan fwyaf o deuluoedd mabwysiadol ar ryw adeg

# Cyswllt ar gyfer Teuluoedd Mabwysiadol

- Cyn y gorchymyn mabwysiadu:
  - Gorchymyn gofal dros dro neu orchymyn gofal – mae gan yr ALl ddyletswydd i ddarparu cyswllt rhesymol. Mae'n debygol y bu cyswllt rheolaidd, fel arfer wyneb yn wyneb.
  - pan fydd gorchymyn lleoli wedi'i wneud ond nad yw'r plentyn wedi'i leoli, bydd cyswllt wyneb yn wyneb yn parhau ond fel arfer ni fydd hyn mor aml, gyda chynllun i roi'r gorau i'r cyswllt amser byr cyn i'r cyflwyniadau ddechrau
  - Ar ôl y lleoli, mae'n annhebygol y bydd cyswllt wyneb yn wyneb

# Ar ôl y Gorchymyn Mabwysiadu

Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol | National Adoption Service

- Bydd cynllun gofal y plentyn yn cynnwys cynllun ar gyfer cyswllt ar ôl mabwysiadu
- Fel rhieni mabwysiadol rydych wedi cytuno, yn ddidwyll, â'r cynllun hwnnw
- Cofiwch y bydd yn rhaid i chi roi cyfrif i'ch plentyn/plant am eich gweithredoedd mewn blynyddoedd i ddod!
- Os yw'r trefniadau cyswllt yn dod yn rhai nad ydynt o fudd i'r plentyn, yna gallwch eu newid
- Mae angen i chi hysbysu'r Asiantaeth Fabwysiadu, yn ysgrifenedig, o'ch rhesymau dros leihau neu roi'r gorau i'r cyswllt y cytunwyd arno

- Mae’r cwrs hwn yn rhan o gyfres a ddatblygwyd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i gefnogi mabwysiadwyr ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo.
- Gellir dod o hyd i’r rhain ar wefan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- Siaradwch gyda’ch tîm cefnogi mabwysiadu am ragor o wybodaeth